

Mae'r daflen wybodaeth yma wedi'i darparu gan Wasanaethau Arlwyo Cyngor Rhondda Cynon Taf er mwyn esbonio beth sydd angen i chi'i wneud os yw eich plentyn chi angen deiet wedi'i ragnodi'n feddygol ar gyfer brecwast a chinio mewn lleoliad ysgol gynradd.

BETH YW DEIET WEDI'I RAGNODI'N FEDDYGOL?

Mae Anghenion Deietegol wedi'u Rhagnodi'n Feddygol yn cael eu diffinio yn *Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2013* **fel 'anghenion deietegol sydd wedi'u rhagnodi gan Ymarferydd Meddygol Cofrestredig (Meddyg Teulu) neu Ddeietegydd Cofrestredig'**. Mae enghreifftiau o ddeietau meddygol yn cynnwys alergeddau, anoddefiadau, diabetes math 1 a chlefyd seliag.

PRYD I WNEUD CAIS AM DDEIET WEDI'I RAGNODI'N FEDDYGOL

Dylid gwneud cais am ddeiet pan fo'n bwydlenni cyffredin yn anaddas ac angen eu haddasu er mwyn darparu dewis diogel i ddisgybl sydd ag angen deietegol wedi'i ragnodi'n feddygol.

Rydyn ni'n gofyn i chi roi gwybod i ni am anghenion deiet meddygol **cyn gynted â phosibl** er mwyn sicrhau bod modd i'n Deietegwyr ddarparu bwydlen ddiogel ac addas.

BETH SYDD DDIM YN CAEL EI YSTYRIED YN DDEIET WEDI'I RAGNODI'N FEDDYGOL

Does dim angen i anghenion deietegol o ganlyniad i ddewisiadau crefyddol, diwylliannol neu bersonol gael eu cofrestru ar y ffurflen yma. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys deiet llysieuol a fegan.
Bydd angen rhannu manylion am yr anghenion yma'n uniongyrchol â'r ysgol a byddan nhw'n cysylltu â staff arlwyo er mwyn sicrhau bod dewisiadau addas ar gael.

SUT I WNEUD CAIS AM DDEIET WEDI'I RAGNODI'N FEDDYGOL

Ewch ar-lein i wefan Cyngor Rhondda Cynon Taf

COFRESTRU GOFYNIAD DIETEGOL A RAGNODIR YN FEDDYGOL

www.rctcbc.gov.uk/DietRhagnodiMeddygol

Cwblhewch y Ffurflen Gais am Ddeiet wedi'i Ragnodi'n Feddygol gan sicrhau eich bod chi'n lanlwytho tystiolaeth feddygol mewn perthynas â'r alergedd, anoddefiad neu angen meddygol o ran bwyd. **Bydd hyn yn cynnwys gohebiaeth ysgrifenedig gan naill ai Ymarferydd Meddygol Cofrestredig (Meddyg Teulu) neu Ddeietegydd Cofrestredig, sy'n cadarnhau gofyniad/gofynion deietegol y plentyn. Rhaid i'r dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno nodi dyddiad o fewn y 12 mis diwethaf.**

Cliciwch **CYFLWYNO**

BETH SY'N DIGWYDD NESAF?

Wedi iddyn nhw dderbyn y ffurflen wedi'i chwblhau, bydd ein Carfan Arlwyo yn gweithio gyda'n Deietegwyr i lunio bwydlen addas wedi'i haddasu. Bydd yr ysgol a chegin yr ysgol yn derbyn copi o fwydlen y Deiet wedi'i Ragnodi'n Feddygol a'r holl wybodaeth berthnasol mewn perthynas ag anghenion deiet wedi'u rhagnodi'n feddygol eich plentyn.
Os bydd anghenion deiet wedi'u rhagnodi'n feddygol eich plentyn yn gymhleth, efallai bydd angen i ni gysylltu â chi am ragor o wybodaeth.